

Flossy a Boo

ANTURIAETHAU NADOLIGAIDD

PECYN

GWEITHGAREDDAU



CROESO

Cydia mewn blanced a fflachlamp...mae dy Becyn Flossy a Boo wedi cyrraedd ac mae'n llawn **gweithgareddau Nadoligaidd!**

Rydyn ni wastad yn awgrymu bod y teulu cyfan yn gwneud y gweithgareddau sydd yn y pecyn yma gyda'i gilydd, fel bod o leiaf un person mawr ac un person bach yn gweithio gyda'i gilydd ac yn helpu ei gilydd.

Mae'r pecyn yma i gyd yn ymwneud â bod yn glyd ac yn greadigol... Felly mae'n amser paratoi ar gyfer antur aeafol arbennig: crefftau, straeon, a hyd yn oed creu ffau!

Dyma rywbeth i dwymo calonau'r ifainc a'r rheiny sy'n ifanc eu ffordd, ar ddiwrnod oer!



Beth Yw'r Gwahaniaeth?

Mae yna 5 i gyd... Wyt ti'n gallu dod o hyd i bob un?



19 12 2002

25

LLUSERNAU

**Gwna'n siwr fod y papur ar ffurf dirwedd
(yr un ffordd rownd â'r pecyn yma!)
Torra strived o bapur o frig y ddalen
(bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ddal y llusern
nes ymlaen) Nawr mae'n amser addurno!**

Nesaf, plyga'r papur yn ei hanner, gan dynnu brig y ddalen i lawr i gwrdd â'r gwaelod (gwasga i lawr yn galed ar y plyg) Yna gwna lawer o doriadau bach ar hyd y plyg, mae un toriad bob rhyw 2cm yn gweithio'n dda (paid â thorri'r holl ffordd i'r ymyl!)

Agora'r papur yn ôl a defnyddia lud neu styfflwr i ludo'r ymylon ar y top ac ar y gwaelod gyda'i gilydd i wneud tiwb. (Gweler y llun ar y sticer)

Nawr y ddolen - defnyddia'r strived o bapur wnest ti dorri ar y dechrau, gwna hanner cylch gydag e a glyna bob ochr i ben y llusern i ffurfio dolen.

Mae angen:


Papur neu gerdyn

Siswrn

Pennau/paent/creonau/sticeri

Tâp gludiog neu staplwr

Mae croeso i ti ddefnyddio unrhyw faint papur rwyf ti'n ei ddymuno



Cadwyni papur

Y cyfan sydd ei angen yw:

Rhywfaint o bapur lliwgar
(unrhyw liwiau rwyd ti'n eu hoffi!)

Siswrn

(gofynna i berson mawr os oes angen help arnat ti)

Ychydig o lud neu dâp gludiog

Torra sribedi hir o'r papur, i gyd yr un maint. Yna gluda pen a chynffon un o'r sribedi gyda'i gilydd i greu cylch. Bwyda'r ail sribed o bapur trwy'r cylch papur cyntaf ac yna gluda pen a chynffon y sribed hwnnw at ei gilydd i wneud ail gylch. Dylai'r ddau gylch fod yn wedi cysylltu. Dal ati fel hyn nes bod y sribedi papur i gyd wedi'u defnyddio a bod un gadwyn hir, hardd, lliwgar, anhygoel gyda ti!



Pom Poms:

Y cyfan sydd ei angen yw:

Cerdyn

Ychydig o wllân hir, lliwgar

Siswrn

(gofynna i berson mawr os oes angen help arnat ti)

Tynna lun 2 gylch ar dy bapur di a thorra nhw allan. Mae angen torri twll llai o faint yn y canol... meddylia am doesyn!

Mae modd i'r rhain fod mor fawr neu mor fach ag wyt ti eisiau - po fwyaf y ffrâm, mwyaf y pom pom!

(Gwna'n siŵr eu bod yr un maint â'i gilydd dyna i gyd!)

Pan fydd y cylchoedd gyda ti, rho nhw at ei gilydd ac yna dechreua lapio'r gwllân o amgylch y ddau ohonyn nhw, rownd y tu allan a thrwy ganol y twll.

Pan fydd gen ti lawer a llawer o haenau (po fwyaf o haenau, y mwyaf fflwfflyd yw'r pom pom!) defnyddia'r siswrn i dorri o amgylch ymyl y gwllân, rhwng y ddau gylch. Mae angen clymu darn o linyr rhwng y ddau gylch i'w sicrhau. Llithra'r cardiau i ffwrdd ac mae gen ti bom pom!

Creu stori

Beth am ddechrau gyda'r pethau sylfaenol?

Pwy?

Pwy yw dy brif gymeriad - ydyn e/hi'n berson? Yn anifail? Yn greadur newydd sbon? Neu ai ti yw e/hi? Ydy e/hi'n hapus, trwsgl, bach, blin, tal, unig, anturus, gwirion...? Ydyn e/hi'n newid?

Ble?

Ble mae'n byw - wyt ti wedi bod yno, neu ydy e'n rhywle rwyt ti wedi'i ddyfeisio? I ble mae'r cymeriad(au) yn teithio yn y stori?

Pam?

Pam ydy'r stori'n dechrau - ydy rhywbeth gwahanol yn digwydd i'r cymeriad y diwrnod hwnnw? Oes ganddo/ganddi broblem i'w datrys?

Beth?

Beth sy'n digwydd ym mhrif ran y stori - a yw'r cymeriad yn cwrdd ag unrhyw un arall? Ydy e/hi'n dod o hyd i rywbeth annisgwyl? Oes rhaid iddo fe/iddi hi deithio, neu wneud rhywbeth?

Sut?

Sut mae'r cyfan yn dod i ben - a yw'r diwedd glo'n un hapus? A yw'n ddiwedd glo annisgwyl? Beth sydd angen i'ch cymeriad ei wneud i gyrraedd adref/datrys y broblem/bod yn hapus?



Mae creu stori antur
dy hun yn lot o hwyl!

**Galli di ysgrifennu,
tynnu llun neu
ddweud dy stori
ar goedd.**

Dyma ychydig mwy o
awgrymiadau
defnyddiol i dy roi di
ar ben ffordd:

Actio'r Stori
Meddylia am stori rwyt ti'n gyfarwydd â hi'n barod a'i dweud yn uchel,
neu gofyn i rywun ei darllen allan o lyfr os yw hi gen ti. Defnyddia dy
deganau i actio'r stori allan. Gall dy deganau fod yn gymeriadau
gwahanol - faint o leisiau gwirion oes modd eu defnyddio?

Straeon Cyflym

Beth am geisio adrodd stori gyda'ch gilydd,
trwy ddweud un gair yr un ar y tro yn unig!

Person 1: Un

Person 2: Dydd

Person 1: 'Wnaeth

Person 2: Robot

Person 1: Benderfynu

Cariwch ymlaen nes i'ch
stori wych ddod i ben!



Danteithion Melys

**Rydyn ni i gyd yn gwybod mai'r ffordd orau i
fwynhau stori yw gyda siocled poeth blasus!**

Dyma sut i wneud dy siocled poeth dy hun.
Gwna'n siŵr dy fod yn cael
help gan berson mawr gyda'r stôf!

Mae angen (y pen):

- 1 cwpan o laeth (dewisa di pa laeth)
- 1 llwy fwrdd o bowdr coco
- NEU 5oz o siocled wedi'i doddi
(todda'r siocled yn araf mewn microdon neu
mewn powlen wydr uwchben padell o ddŵr poeth)

Mae croeso i ti ychwanegu blas - fanila, menyn cnau daear,
croen oren wedi'i gratio, sinamon, malws melys, hufen...

Yn syml iawn, mae angen cymysgu pob dim mewn sosban
ar wres isel ar y stôf a'i fwynhau o dan flanced fawr, glyd.





Creu Ffau

Bydd angen:

Dodrefn cadarn (Cefn sofffa, neu gadeiriau da -
mae modd i ochr dy wely di weithio hyd yn oed)

Pegiau dillad

Blanced fawr (neu gasgliad o flancedi llai) - rhai tenau sydd orau
Clustogau neu gobenyddion cyffyrddus

Sut i greu ffau:


- Yn gyntaf, mae angen trefnu'r dodrefn (gan wneud yn siwr bod lle gen ti i ffitio y tu mewn)
- Nesaf, mae angen taflu'r flanced/blancedi dros y top i greu'r to
- Yna clyma'r cyfan gyda'i gilydd - mae modd i ti ddefnyddio'r pegiau dillad neu glymu corneli'r flanced
- Llenwa'r ffau â phethau cyffyrddus.
- Nawr mae'n le perffaith i fwynhau straeon, byrbrydau ac anturiaethau.



Fersiwn Arall (mwy hawdd!)

Dewisa fwrdd yn y tŷ ac yna gosoda flanced fawr dros yr ymyl i wneud drws (gwna'n siŵr bod y bwrdd yn glir yn gyntaf!)

Byddai hyd yn oed modd i ti addurno'r ffau newydd gyda rhai o'r pom poms, cadwyni papur a'r llusernau gwneust ti!



Gwneud Cysgodion

Galli di ddefnyddio'r ffau fel sgrin fawr a chael hwyl yn creu cysgodion!

Y cyfan sydd angen i ti ei wneud yw sicrhau bod yr ystafell mor dywyll â phosibl (er enghraifft drwy ddiffodd y goleuadau a thynnu'r llenni). Yna disgleiria fflachlamp neu lamp llachar ar y blancedi sy'n creu waliau neu nenfwd y ffau.

Rho dy law o flaen y golau - beth sy'n digwydd i'r cysgod pan fyddi di'n symud dy law tuag at y golau neu i ffwrdd ohono?

Pa siapiau galli di eu gwneud â'th llaw - oes modd i ti wneud gwahanol anifeiliaid neu bobl? Beth am roi ychydig o wrthrychau at ei gilydd i greu bryniau anwastad i'r anifail cysgod gerdded drostyn nhw?

Awgrym:

Mae modd i ti wneud cysgodion hyd yn oed heb ffau - beth am hongian dillad gwely plaen i fyny, mynd tu ôl y llenni, neu dorri siapiau allan i lynu ar dy ffenest er mwyn i'r haul ddisgleirio drwyddyn nhw! (Gofynna i berson mawr yn gyntaf cyn i ti ludo unrhyw beth ar y ffenestr!) Rho gynnig ar gerdyn du'tywyll i greu cysgodion, neu bapur sidan lliwgar i gael effaith enfys!

CHWARAE CHWILIO

Deilen

Hud

Rhywbeth Oer

Rhywbeth Cynnes

Trîd

Aderyn

Yn dy dŷ neu ar
antur...

Faint o'r pethau hyn
wyt ti'n gallu dod o
hyd iddyn nhw?

Oes modd i ti dynnu
llun o bob un?

Addurniadau Toes Hallt


Mae angen:

2 gwpan o flawd plaen
1 cwpan o halen

1 cwpan o ddŵr cynnes

Bowlen gymysgu

Ffwrn (gofynna i berson mawr am
help)



Sut i wneud yr arddurniadau:

Cynhesa'r popty 120 C.

Mewn powlen fawr cymysga'r dŵr a'r halen,
nes bod yr halen wedi diflannu

Ychwanega'r blawd, fesul tipyn, nes bod gen ti does meddal
Rholia'r toes allan a thorra ba bynnag siapiau rwyd ti'n eu
hoffi allan ohono, gwna batrymau yn y toes.

Paid ag anghofio ychwanegu tyllau os wyt ti eisiau eu
hongian nhw i fyny!

Poba'r toes nes ei fod wedi sychu'n llwyr (1-2 awr)

Mae modd i ti baentio'r addurniadau i gael mwy o liw
Hongia nhw i fyny a mwynha!

Beth yw dy Enw Nadoligaidd?

Edrycha am ddyddiad dy ben-blwydd i ddod o hyd i dy enw Nadoligaidd!

- | | | |
|------------------|---------------|---------------|
| 1 - Aeron | 13 - Cryndod | 25 - Sglefrio |
| 2 - Rhew | 14 - Crisial | 26 - Sgarff |
| 3 - Maneg | 15 - Tisian | 27 - Oerfel |
| 4 - Gwlanog | 16 - Crenshan | 28 - Llithro |
| 5 - Pibonwy | 17 - Bwts | 29 - Deilen |
| 6 - Pom-pom | 18 - Gloyw | 30 - Cwtsh |
| 7 - Corach | 19 - Sbrowten | 31 - Fflam |
| 8 - Gwau | 20 - Robin | |
| 9 - Eira | 21 - Hosan | |
| 10 - Hysci | 22 - Mesen | |
| 11 - Cloch | 23 - Gwynt | |
| 12 - Pin Nodwydd | 24 - Siocled | |

- Ionawr - Bara sinsir
Chwefror - Carw
Mawrth - Cnu
Ebrill - Sled
Mai - Pelen Eira
Mehfin - Gloyw
Gorffennaf - Blanced
Awst - Storm
Medi - Cesair
Hydref - Simnai
Tachwedd - Glo
Rhagfyr - Rhuban

Mae modd chwarae o gwmpas i weld beth sy'n gweithio

Tynna lun o dy Gymeriad Nadoligaidd





Rydyn ni wir yn gobeithio dy fod wedi mwynhau
dy weithgareddau Nadoligaidd!

Bydden ni wrth ein boddau'n gweld dy ffau,
d'addurniadau, dy straeon a dy gysgodion
anhygoel...

Anfona luniau aton ni ar gyfryngau cymdeithasol!
Bydd modd i ti weld beth mae pobl eraill wedi'i
greu yno hefyd.

DIOLCH



**The Welfare
Y Neuadd Les**

Ystradgynlais



Ar gyfer ein cyfryngau cymdeithasol i gyd, yn
ogystal â rhagor o bethau cyffrous, cer i:

www.linktr.ee/flossyandboo

Copyright © 2020 Flossy and Boo Ltd **TM**